

## Hysbysiad Preifatrwydd Gofod Seren Space

### Cefndir

Menter gan Lywodraeth Cymru yw Seren i helpu myfyrwyr disgleiriaf Cymru i gyflawni eu potensial academaidd llawn a chefnogi eu llwybr addysg i brifysgolion blaenllaw yng Nghymru, y DU a thramor. Mae Seren yn cyflawni ei nod drwy gynnal rhaglen o ddigwyddiadau a chyfleoedd ar lefel rhanbarthol a chenedlaethol ble rhennir gwybodaeth, cyngor ac arweiniad am fynediad i addysg uwch. Mae'r gweithgareddau hyn yn amrywio o ddsbarthiadau meistr i weithdai, ac o baneli holi a chynadleddau i ysgolion haf a gynhelir gan sefydliadau academaidd blaenllaw.

Mae rhaglen genedlaethol digwyddiadau Seren yn cael ei gyflawni ar is-gontract gan Lywodraeth Cymru i Cazbah, Equal Education Partners, Working Word a The Brilliant Club (sef Tîm Cyflawni Seren). Cazbah ac Equal Education Partners sydd â'r cyfrifoldeb dros gydosod a rheoli porthol ar gyfer dysgwyr Seren. Mae'r porthol wedi ei gynnal ar feddalwedd cymuned Graduway. Bydd tîm cyflawni Seren, cydlynwyr hwb a sefydliadau partner yn defnyddio'r porthol i rannu gwybodaeth ac adnoddau a hyrwyddo digwyddiadau a chyfleoedd Seren (e.e. ysgolion haf) i ddysgwyr Sylfaen ac Academi, yn ogystal â chyn-fyfyrwyr Seren, athrawon, dysgwyr a gofalwyr. Bydd y porthol yn cael ei ddefnyddio i hwyluso rhaglenni mentora ar gyfer dysgwyr Seren. Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn egluro sut rydym yn defnyddio'r wybodaeth bersonol yr ydym yn ei gasglu amdanoch o fewn y porthol er mwyn gwella rhaglen genedlaethol Seren.

Rydym yn cymryd eich preifatrwydd o ddifrif a byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol er mwyn caniatu i chi gymryd rhan yn rhaglen Seren ac i hwyluso ei gwerthusiad yn unig. Byddwn yn trin eich gwybodaeth bersonol yn gyfunol â deddfwriaeth diogelu data cyfredol, gan gynnwys cyfraith Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR).

## Casglu eich gwybodaeth

Os ydych yn cofrestru ar y porthol, fel rheolwr data, byddwn yn prosesu gwybodaeth bersonol amdanoch er mwyn cwblhau y cofrestrriad angenrheidiol a sicrhau eich bod yn cael eich adnabod fel dysgwyr Seren i gael mynediad i'r porthol, ac i adnabod eraill fel unigolion allweddol i dderbyn diweddariadau am weithgareddau Seren. Gallwn anfon ffurflenni gwerthuso atoch i fesur effaith gweithgareddau Seren. Bydd yr adborth yn cael ei gasglu yn anhysbys a'i ddarparu i Lywodraeth Cymru.

## Sut rydym yn rhannu eich gwybodaeth

Gall eich gwybodaeth bersonol gael ei rannu gyda chontractwyr allanol neu sefydliadau partner sydd yn gweithio ar ran neu gyda Cazbah neu Equal Education Partners wrth reoli porthol Gofod Seren Space. Byddant yn derbyn mynediad at eich gwybodaeth bersonol er mwyn cyflawni y rhannau perthnasol o raglen Seren a'r broses gwerthuso effaith yn unig.

## Pa wybodaeth bersonol fydd yn cael ei brosesu?

Ar gyfer dysgwyr Sylfaen byddwn yn casglu'r wybodaeth ganlynol:

- Enw
- Rhagenwau dewisol
- Cyfeiriad ebost
- Dyddiad geni
- Côd post cartref
- Ysgol neu goleg
- Canolfan ranbarthol
- Blwyddyn ymuno gyda Seren
- Rhywedd
- Ethnigrwydd
- Dewis iaith
- Gallu iaith Gymraeg
- Cymhwyster Prydau Ysgol am Ddim
- Unrhyw anabledd, angen dysgu neu gyflwr meddygol

- Unrhyw brofiad o fod mewn gofal
- Unrhyw gyfrifoldebau gofalu
- A wnaeth unrhyw riant neu ofalwr fynychu prifysgol
- Ffoadur neu geisiwr lloches

Ar gyfer dysgwyr Academi byddwn yn casglu'r wybodaeth ganlynol:

- Enw
- Rhagenwau dewisol
- Cyfeiriad ebost
- Dyddiad geni
- Côd post cartref
- Ysgol neu goleg
- Canolfan ranbarthol
- Blwyddyn ymuno gyda Seren
- Graddau TGAU
- Pynciau Lefel A
- Prifysgolion o ddiddordeb
- Pynciau o ddiddordeb
- Rhywedd
- Ethnigrwydd
- Dewis iaith
- Gallu iaith Gymraeg
- Cymhwyster Prydau Ysgol am Ddim
- Cymhwyster Lwfans Cynhaliaeth Addysg
- Unrhyw anabledd, angen dysgu neu gyflwr meddygol
- Unrhyw brofiad o fod mewn gofal
- Unrhyw gyfrifoldebau gofalu
- A wnaeth unrhyw riant neu ofalwr fynychu prifysgol
- Ffoadur neu geisiwr lloches

Ar gyfer cyn-fyfyrywyr Seren byddwn yn casglu'r wybodaeth ganlynol:

- Enw
- Rhagenwau dewisol
- Cyfeiriad ebost
- Dyddiad geni
- Ysgol neu goleg
- Canolfan ranbarthol
- Blwyddyn ymuno gyda Seren
- Graddau TGAU
- Pynciau Lefel A
- Dewis prifysgol
- Pwnc prifysgol

- Blwyddyn graddio
- Rhywedd
- Ethnigrwydd
- Dewis iaith
- Gallu iaith Gymraeg

Ar gyfer cydlynwyr rhanbarthol byddwn yn casglu'r wybodaeth ganlynol:

- Enw
- Rhagenwau dewisol
- Cyfeiriad ebost
- Canolfan Ranbarthol

Ar gyfer athrawon byddwn yn casglu'r wybodaeth ganlynol:

- Enw
- Rhagenwau dewisol
- Cyfeiriad ebost
- Canolfan Ranbarthol
- Enw ysgol neu goleg
- Swyddogaeth o fewn yr ysgol neu goleg

Ar gyfer rhieni/gofalwyr byddwn yn casglu'r wybodaeth ganlynol:

- Enw
- Rhagenwau dewisol
- Cyfeiriad ebost
- Canolfan Ranbarthol
- Ysgol neu goleg a fynychir gan y plentyn

Ar gyfer sefydliadau partner byddwn yn casglu'r wybodaeth ganlynol:

- Enw
- Rhagenwau dewisol
- Cyfeiriad ebost
- Enw sefydliad
- Swyddogaeth o fewn y sefydliad

## **Beth fydd yn cael ei wneud gyda'ch gwybodaeth bersonol?**

Bydd eich gwybodaeth bersonol yn cael ei ddefnyddio i'ch galluogi i gofrestru o fewn porthol Seren ac i gael mynediad i'r hyn sydd yn cael ei ddarparu.

Yn ogystal, dros y flwyddyn academaidd, gan ddefnyddio eich data, gallwn anfon ffurflenni gwerthuso atoch i fesur effaith rhaglen Seren. Gall y data personol a gesglir drwy gofrestru gael ei ddefnyddio yn anhysbys i fesur effaith rhaglen Seren ar grwpiau penodol o ddysgwyr.

Ni fyddwn yn rhannu eich gwybodaeth heb eich caniatâd, os nad yw'r gyfraith a'n polisiau yn ein caniatáu i wneud hynny. Os hoffech chi dderbyn copi o'r wybodaeth a gedwir amdanoch, cysylltwch gyda'n Swyddog Diogelu Data, James Parsons, a gwelir ei fanylion cyswllt ar waelod yr hysbysiad hwn.

## **Pa mor ddiogel yw eich data personol?**

Mae gan bob partner o fewn y tîm cyflawni achrediad Cyber Essentials Plus. Mae hyn yn arddangos ein ymrwymiad i seiberddiogelwch. Mae Cyber Essentials yn gynllun effeithiol, a gefnogir gan y Llywodraeth, sydd yn amddiffyn pob partner o ymosodiadau seiber. Yn ogystal, mae pob partner yn gweithredu gyda systemau gwybodaeth diogelwch uchel, gan gynnwys platfformau yn defnyddio systemau cwmwl ac sydd yn cydymffurfio gyda safonau GDPR. Bydd eich data personol yn cael eu cadw yn ddiogel gyda diogelwch cyfrinair o fewn systemau gwybodaeth Tîm Cyflawni Seren. Bydd Cazbah, Equal Education Partners a'u partneriaid yn y tîm cyflawni yn trosglwyddo eich gwybodaeth bersonol yn defnyddio systemau trosglwyddo data achrededig.

## **Am ba hyd bydd eich data personol yn cael ei gadw?**

Bydd Tîm Cyflawni Seren yn cadw eich data personol tra bo hynny'n angenrheidiol ar gyfer y pwrpas yr ydym yn ei gasglu yn unig. Pan fo caniatad ddim yn cael ei roi, bydd y tîm cyflawni yn stopio prosesu eich data personol a sensitif.

## **Cytundeb**

Wrth gytuno i'r hysbysiad preifatrwydd hwn rydych yn caniatáu i Dîm Cyflawni Seren i gasglu a phrosesu eich data personol ar ran Llywodraeth Cymru ac yn rhoi caniatâd diamod i Lywodraeth Cymru a'i thrwyddedeion storio unrhyw ddata personol at unrhyw bwrpas sy'n gysylltiedig ag arfer eu swyddogaethau. Rydych yn caniatáu i Lywodraeth Cymru storio eich data a'r ffurflen hon mewn unrhyw ffurf yn ei chronfa ddata, ac yn cydnabod y bydd y ffurflen hon yn cael ei llunio yn unol â chyfreithiau Cymru a Lloegr a bydd yn destun awdurdodaeth llysoedd Cymraeg a Lloegr yn unig.

Diogelir y porthol gan gyfeiriadau ebost a chyfrineiriau a dylid ceisio mynediad i'r porthol gan aelodau awdurdodedig o raglen Seren yn unig. Caiff pob neges a phostiad gan ddefnyddwyr eu monitro, a lle bo hynny'n briodol, os yw cynnwys yn cael ei ddyfarnu yn amhriodol, caiff ei ddileu gan aelodau o Dîm Cyflawni Seren.

Os oes gennych gyfeiriad ebost a chyfrinair i gael mynediad i'r porthol, rydych yn cytuno i beidio eu rhannu gydag unrhyw berson arall, gan gynnwys unrhyw berson sydd yn dal eu cyfeiriad ebost a chyfrinair eu hunain. Rydych yn cytuno bod y cyfeiriad ebost a'r cyfrinair yn bersonol i chi yn unig, ac ni fyddwch yn cael mynediad neu geisio cael mynediad i gyfrif unrhyw ddefnyddiwr arall, neu yn camgyflwyno neu geisio camgyflwyno eich hunaniaeth, wrth ddefnyddio'r porthol.

Rydych yn gyfrifol am bob defnydd o'ch cyfeiriad ebost a chyfrinair i gael mynediad i'r porthol ac am bob gweithgaredd oddi tanynt, gan gynnwys y defnydd o unrhyw wybodaeth neu ddeunydd wedi eu derbyn trwy eu defnyddio. Gall Seren ddiweddu eich cyfrif neu ganiatad i gael mynediad i'r porthol ar unrhyw amser, heb rybudd, am ymddygiad y mae Seren yn credu sydd yn erbyn y Telerau neu unrhyw bolisiâu, rheolau neu reoliadau perthnasol o fewn rhaglen Seren.

Rydych yn cydnabod ac yn cytuno bod gan Dîm Cyflawni Seren yr hawl i fonitro pob gweithgaredd ar y porthol, gan gynnwys, heb gyfyngiad, sgysiau, postiadau, sylwadau a phostiadau grŵp. Mae Tîm Cyflawni Seren yn dal yr hawl i wrthod postio, neu i ddileu unrhyw wybodaeth neu ddeunyddiau, boed hynny yn llawn neu yn rhannol, sydd yn erbyn y Telerau.

## Datgelu eich gwybodaeth

Gallwn ddatgelu eich gwybodaeth bersonol:

- Os ydym dan ddyletswydd i rannu eich data personol er mwyn cydymffurfio gydag unrhyw rwymedigaeth cyfreithiol, neu er mwyn gorfodi neu weithredu ein telerau ac amodau a chytundebau eraill; neu i amddiffyn yr hawliau, eiddo, neu ddiogelwch Llywodraeth Cymru, neu eraill; neu i ymchwilio i neu atal trosedd.
- Gall fod angen rhannu peth gwybodaeth bersonol gyda Llywodraeth Cymru er mwyn gweithredu ei swyddogaeth diogelu. Yn yr achos hwn bydd Llywodraeth Cymru yn gweithredu swyddogaeth y rheolwr data ar gyfer pwrpas gweithredu ei swyddogaeth fel swyddog diogelu ar gyfer gweithgareddau Seren.

Gallwch ddod o hyd i hysbysiad preifatrwydd Seren Llywodraeth Cymru [yma](#).

## Hawliau unigol dan GDPR

Wrth gasglu y data rydym yn cydymffurfio gyda'r elfennau perthnasol o Reoliadau GDPR. Mae gennych yr hawliau canlynol mewn perthynas gyda'r wybodaeth bersonol yr ydych yn ei ddarparu fel rhan o'r broses gofrestru a'ch mynediad i'r porthol. Mae gennych yr hawl i:

- Gael mynediad i gopi o'ch data eich hun;
- Ein gorfodi i gywiro unrhyw gamgymeriadau yn y data;
- I wrthod neu gyfyngu ar brosesu (mewn rhai sefyllfaoedd);
- I 'ddileu' eich data (mewn rhai sefyllfaoedd).

## Newidiadau i'r hysbysiad preifatrwydd

Bydd pob newid neu addasiad i'r ddogfen hon yn cael eu dangos ar borthol Gofod Seren Space.

## Manylion Cyswllt Swyddog Diogelu Data

James Parsons,  
Cazbah Ltd,  
PO Box 734,  
Casnewydd  
NP20 9FJ

[james.parsons@cazbah.wales](mailto:james.parsons@cazbah.wales)

## Cwynion neu ymholiadau

Os hoffech gwyno am yr hysbysiad preifatrwydd hwn neu unrhyw brosesau a amlinellir ynddo, cysylltwch gyda Natalie Gondwe ar 01554 777749 neu ebostiwch [natalie.gondwe@equaleducationpartners.com](mailto:natalie.gondwe@equaleducationpartners.com).



**Prif Swyddfa:**

Equal Education Partners

Rhif 6 Dragon 24

Doc y Gogledd

Llanelli

Sir Gaerfyrddin

SA15 2LF